Senedd Cymru
Welsh Parliament

Staff y Comisiwn a ffyrlo

6 Mai 2021

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 13 Ebrill, pan wnaethoch ofyn

Pursuant to the Freedom of Information Act please provide:

1. *the number of employees each month from February 2020 to March 2021 and their departments*
2. *the total staff each month on "furlough" under the Coronavirus Job Retention Scheme placed on furlough*
3. *the departments these employees were within*
4. *the amount claimed and paid by the "furlough" scheme by HMRC*
5. *the number of redundancy payments made from feb 2020 to March 2021 and the total figure of payments*
6. *the organisation chart of staff*

*Please include information for both the Parliament and the Body Corporate (but not for elected members or their offices).*Gweler ein hymateb i'ch cais isod:

1. Atodaf ddogfen PDF sy'n nodi nifer y cyflogeion ym mhob mis a'u timau perthnasol (Gofynnir ichi anfon e-bost at ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru i gael y wybodaeth hon)

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

2. Nid yw unrhyw un o staff Comisiwn y Senedd wedi bod ar ffyrlo o dan y Cynllun Cadw Swyddi hyd yma. Cafodd ymateb i'r un cwestiwn ei roi ym mis Mehefin 2020, ac mae'r ateb hwn yn parhau'n ddilys - **https://senedd.wales/media/1cpdnuuj/foi-976_eng.pdf**
3. O ystyried y sefyllfa, nid oes gennym unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais
4. Eto, oherwydd y sefyllfa, nid oes gennym unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais
5. Fel o'r blaen, nid oes gennym unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais
6. Mae PDF o'r siart sefydliadol wedi'i atodi (Gofynnir ichi anfon e-bost at ceisiadau-gwybodaeth@senedd.wales i gael y wybodaeth hon)

Yn gywir

Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, gofynnir ichi ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i:

Senedd Cymru
Llywodraeth a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF